# Uned 17: Deall a Hybu Iechyd Anifeiliaid

| | |
|---|---|
| **Côd yr Uned:** | **D/600/9365** |
| **FfCC Lefel 3:** | **BTEC Cenedlaethol** |
| **Gwerth o ran credydau:** | **10** |
| **Oriau dysgu dan arweiniad:** | **60** |

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o egwyddorion iechyd anifeiliaid a sut gellir eu rhoi ar waith. Mae'r uned hon yn bennaf ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu mewn canolfan ac sydd am symud ymlaen i'r sector neu i hyfforddiant neu addysg bellach.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae dysgu am iechyd anifail yn bwnc diddorol a phwysig i bawb sy'n bwriadu gweithio yn y diwydiant gofal anifeiliaid. At ba ddiben bynnag y defnyddir yr anifeiliaid, mae'n rhaid sicrhau'r iechyd gorau iddynt os ydynt i gyflawni eu diben, naill ai fel anifail anwes, anifail gwaith neu anifail a gedwir mewn casgliad fel sŵ.

Bydd y dysgwr yn gallu adnabod arwyddion iechyd da ac afiechyd anifeiliaid a gwerthuso'r rhain fel dangosyddion statws iechyd. Bydd y dysgwr yn cyflawni gwiriadau iechyd ar anifeiliaid ac yn cynhyrchu cynlluniau iechyd anifeiliaid. Bydd strwythur a rôl organebau pathogenaidd yn cael eu harchwilio ynghyd ag atal a thrin amrediad o glefydau ac anhwylderau. Bydd y dysgwr yn gallu cyflawni triniaethau arferol ac anarferol ar gyfer anifeiliaid.

Trwy gydol yr uned hon, bydd y dysgwyr yn caffael gwybodaeth fanwl am lawer o arferion iechyd anifeiliaid a'r theori y tu ôl iddynt, megis gwirio iechyd, clefydau ac anhwylderau cyffredin, y system imiwnedd a sut mae'n gweithio, trin clefydau a chadw cofnodion iechyd anifeiliaid.

Mae'r uned yn ymwneud â gofal iechyd beunyddiol a gweithdrefnau iechyd mwy arbenigol a salwch megis clefydau milheintiol a hysbysadwy a allai gael effaith aruthrol ar gasgliad o anifeiliaid. Wrth gwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn dod i ddeall sut mae atal rhai mathau o salwch a chlefydau penodol trwy gynllunio'n ofalus a defnyddio arferion rheoli iechyd, er mwyn lleihau eu heffaith ar anifeiliaid a'u perchnogion fel ei gilydd.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Allu adnabod dangosyddion iechyd anifeiliaid

2 Deall clefydau ac anhwylderau cyffredin, sut i'w trin a'u hatal

3 Gallu hybu a chynnal iechyd a lles anifeiliaid

4 Gwybod sut i gyflwyno a chofnodi triniaethau anifeiliaid sylfaenol.

# Cynnwys yr uned

## 1 Gallu adnabod dangosyddion iechyd anifeiliaid

*Dangosyddion iechyd anifeiliaid:* ymddygiad; osgo; cyflwr côt; pwysau; canfod lympiau; tymheredd, pyls, resbiradaeth, symudiad; llygaid; clustiau; ceg; trwyn; dannedd; pilennau gludiog; cynffon; allbwn ysgarthion/wrin; lleisio; bwyta ac yfed; technegau trin anifeiliaid priodol; cyfarpar trin â llaw priodol ee mwselau, tenynnau, basgedi cario a chyfarpar ffrwyno; perthynas rhwng iechyd a chynefinoedd naturiol.

## 2 Deall clefydau ac anhwylderau cyffredin, sut i'w trin a'u hatal

*Clefydau cyffredin:* firysau ee parfofeirws; bacteria ee salmonela; ffyngau ee tarwden; prionau ee sgrafelli; endoparasitiaid ee llyngyr; ectoparasitiaid ee chwain, clefydau hysbysadwy, clefydau milheintiol

*Anhwylderau cyffredin*: ee clefyd Cushing; isthyroidedd; diabetes; canser; clefyd yr arennau

*Triniaeth:* gwrthfiotigau; therapi maeth; gwrthfeicrobiaid; dulliau rhoi ee trwy'r trwyn; mewngyhyrol; mewnwythiennol; trwy'r geg; ar yr wyneb; trwy'r glust

*Ataliaeth:* triniaeth broffylactig ee dilyngyru; rheoli parasitiaid; maeth; ychwanegiadau; gwrthfiotigau mewn bwyd

*System imiwnedd:* imiwnedd actif, goddefol, naturiol a chaffaeledig; rôl y system imiwnedd wrth reoli clefydau; ffactorau sy'n effeithio ar weithio effeithiol

## 3 Gallu hybu a chynnal iechyd a lles anifeiliaid

*Hybu a chynnal iechyd:* gofynion hwsmona; cyfoethogi; gofynion ymarfer; llety; pum angen anifail; cadw cofnodion; cynnwys am gynllunio iechyd a lles; gofal a thriniaethau ataliol (dulliau, rhesymau drostynt)

## 4 Gwybod sut i gyflwyno a chofnodi triniaethau anifeiliaid sylfaenol

*Triniaethau sylfaenol i anifeiliaid:* brechu; dilyngyru; tynnu chwain ac ectoparasitiaid eraill; ysgrafellu; gwirio iechyd; rhoi triniaethau; ffrwyno er mwyn rhoi triniaethau; gofal deintyddol; gofal traed ee tocio ewinedd/crafangau

*Cofnodi triniaethau:* amser; dyddiad; maint y driniaeth; enw'r driniaeth; rhif y swp; ffynhonnell y driniaeth; ymateb i'r driniaeth; amledd y driniaeth; enw'r person sy'n rhoi'r driniaeth; meddyginiaeth


Hydref 2019 © Pearson Education Limited 2019

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 disgrifio dangosyddion iechyd da ac afiechyd mewn anifeiliaid [HR, YA, MC, GT] | T1 asesu iechyd anifeiliaid penodol gan ddefnyddio cyfarpar yn briodol | Rh1 asesu iechyd anifeiliaid penodol yn gywir, gan ystyried yr amgylcheddau lle mae'r anifeiliaid yn byw |
| Ll2 cyflawni gwiriadau iechyd ar anifeiliaid [HR, GT] | | |
| Ll3 trin anifeiliaid mewn ffordd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac sy'n lleiafu straen ac anaf [DM, GT, HR, CE] | | |
| Ll4 archwilio rôl organebau pathogenig mewn clefydau anifeiliaid a'r system imiwnedd [YA, MC, DM, HR] | T2 crynhoi rôl y system imiwnedd, gan fanylu ar y gwahanol fathau o imiwnedd a phroses yr ymateb imiwnol | Rh2 gwerthuso effeithiau clefydau milheintiol a hysbysadwy ar gasgliad o anifeiliaid |
| Ll5 egluro clefydau ac anhwylderau cyffredin anifeiliaid a'u heffaith ar iechyd a lles gan gynnwys rhai hysbysadwy a milheintiol [YA, MC, DM, HR] | | |
| Ll6 egluro'r rhesymau dros ofal ataliol a mesurau trin a ddefnyddir ar gyfer anifeiliaid a’r dulliau o’u cyflawni [MC, YA, HR] | T3 cynnal a monitro iechyd a lles anifeiliaid penodol yn ddiogel | Rh3 gwerthuso iechyd a lles a gyflawnwyd yng nghyswllt anifail, gan argymell gwelliannau |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll7 datblygu cynlluniau i hybu a chynnal iechyd a lles anifeiliaid trwy gydol y flwyddyn [GT, HR, CE, DM] | | |
| Ll8 rhoi mesurau ar waith i hybu a chynnal iechyd a lles anifeiliaid [MC, GT, CE] | T4 trin anifeiliaid yn hyderus a'u monitro heb lawer o gymorth. | |
| Ll9 monitro ac adrodd am iechyd a lles anifail [YA, MC, DM] | | |
| Ll10 disgrifio sut i gyflwyno amrediad o driniaethau sylfaenol arferol ac anarferol i anifeiliaid yn ddiogel, yn unol â chodau ymarfer a deddfwriaeth [GT, DM] | | |
| Ll11 disgrifio pwysigrwydd monitro anifeiliaid ar ôl triniaeth [HR, CE, YA] | | |
| Ll12 disgrifio dulliau o fonitro anifeiliaid a'r cofnodion gofynnol. [HR, YA, MC] | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | |
|---|---|
| | YA - ymholwyr annibynnol |
| | MC - meddylwyr creadigol |
| | DM - dysgwyr myfyriol |
| | GT - gweithwyr tîm |
| | HR - hunan-reolwyr |
| | CE - cyfranogwyr effeithiol |

## Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

### Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac asesiadau ysgrifenedig, ymweliadau â chasgliadau addas a bydd cysylltiadau â lleoliadau profiad gwaith.

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ymarfer cyflawni gofal iechyd ar amrywiaeth o rywogaethau anifeiliaid o'r categorïau hyn: ecsotig, mamaliaid bychan, mamaliaid mawr, cnofilod ac adar. Dylid rhoi pwyslais ar gyflwyno ymarferol ac asesu lle y bo'n bosibl, gan roi amser digonol i ddysgwyr baratoi ar gyfer yr asesiadau hyn.

Dylai'r holl ddysgwyr gael mynediad i'r anifeiliaid, a dylai'r pwyslais fod ar iechyd a diogelwch a lles anifeiliaid trwy'r amser. Bydd hyn yn galw am gynllunio gofalus i sicrhau nad yw'r anifeiliaid o dan straen neu'n cael eu gorddefnyddio.

Dylai'r dysgwyr gael eu hannog i gyflawni ymchwil annibynnol, fel bod modd caniatáu ar gyfer datblygu sgiliau ymchwil a meddwl annibynnol, o dan arweiniad.

Dylid annog y tiwtoriaid hefyd i lunio cysylltiadau gyda sefydliadau gofal anifeiliaid allanol i ddarparu golwg 'go iawn' ar iechyd anifeiliaid a sut mae'n ymwneud â lles cyffredinol anifeiliaid. Gallai hyn fod trwy ymweliadau â chasgliadau anifeiliaid a darlithoedd gwadd gan weithwyr gofal anifeiliaid proffesiynol.

### Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
|---|
| Cyflwyniad i'r uned a chyfleusterau gofal anifeiliaid. |
| **Aseiniad 1: Iechyd Da ac Afiechyd** (Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1) ac ymchwil. |
| Gweithgaredd ymarferol: gwirio iechyd, arwyddion iechyd, TRP etc. |
| **Aseiniad 2: Clefydau a'r System Imiwnedd** (Ll4, Ll5, T2, Rh2) ac ymchwil. |
| Theori: clefydau ac anhwylderau cyffredin |
| Trin ac atal clefydau ac anhwylderau |
| Gweithgaredd ymarferol: cyflwyno triniaethau |
| Theori: cofnodi triniaethau |
| **Aseiniad 3: Cynnal Iechyd a Lles** (Ll6, Ll7, Ll8, Ll9, T3, Rh3) |
| Theori: hybu a chynnal iechyd |

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
|---|
| Theori: cyflwyno triniaethau |
| **Aseiniad 4: Cyflwyno Triniaethau Sylfaenol** (Ll10, Ll11, Ll12, T4) |
| Ymarferol: asesiadau'r uned. |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Dylai asesu'r uned hon gynnwys cyfuniad o aseiniadau damcaniaethol ac ymarferol. Gellid asesu Ll1, Ll2, Ll3, T1 a Rh1, trwy asesiadau gwirio iechyd ymarferol, lle mae'r dysgwyr yn nodi pwyntiau iechyd da ac afiechyd o leiaf dair rhywogaeth wahanol yn unol â rhestr wirio i'w marcio a geir gan y tiwtor. Dylid trin anifeiliaid mewn modd sy'n lleiafu straen ac yn cydfynd â deddfwriaeth fel y manylwyd yn Ll3. Gallai arsylwadau'r tiwtor neu adroddiadau tystion ddarparu tystiolaeth o hyn.

Ar gyfer Rh1, dylai'r dysgwyr wneud asesiadau cywir a dilys am iechyd anifeiliaid penodol a thrafod sut mae eu hamgylchedd yn dylanwadu ar hyn.

Ar gyfer Ll4 ac Ll5 gallai'r dysgwyr greu taflen neu ddogfen ysgrifenedig sy'n disgrifio clefydau ac anhwylderau cyffredin (gan gynnwys clefydau hysbysadwy a milheintiol) mewn rhywogaeth benodol, a sut mae'r system imiwnedd yn gweithio i ymladd y clefyd neu'r anhwylder. Gellid ehangu ar hyn ar gyfer T2 trwy draethawd sy'n dsgrifio'r system imiwnedd yn fanylach, ac sy'n cynnwys proses yr ymateb imwinol. Dylai'r dysgwyr hefyd gynnwys arwyddion clefydau milheintiol a hysbysadwy a sut i'w hatal.

Ar gyfer Rh2, dylai'r dysgwyr werthuso effeithiau clefydau milheintiol a hysbysadwy ar gasgliad penodol o anifeiliaid, o bosib mewn aseiniad ysgrifenedig.

Ar gyfer Ll10, Ll11 ac Ll12 a T4, rhaid i'r dysgwyr gyflawni triniaethau sylfaenol arferol ac anarferol a'u monitro a'u cofnodi ar gyfer o leiaf ddau fath gwahanol o anifail. Mewn taflen wybodaeth gysylltiol ar gyfer gofalwyr anifeiliaid, gallai'r dysgwyr egluro'r rhesymau dros ddefnyddio gofal a thriniaeth ataliol, i gynnwys cynllun ar gyfer hybu a chynnal iechyd rhywogaeth benodol.

Ar gyfer Ll6, mae angen i'r dysgwyr egluro'r rhesymau dros ofal ataliol a mesurau trin a ddefnyddir ar gyfer anifeiliaid a'r dulliau o'u cyflawni. Gallai hyn fod yn ysgrifenedig neu ar ffurf cyflwyniad.

Yn achos Ll7, Ll8 ac Ll9 rhaid i'r dysgwyr gynllunio, rhoi ar waith, monitro ac adrodd am iechyd a lles anifeiliaid. Mae'n debygol y byddai cynhyrchu cynlluniau gofal a chofnodion/dyddiaduron yn dystiolaeth o hyn. Rhaid trafod o leiaf dair rhywogaeth o anifeiliaid.

Ar gyfer T3, gallai'r dysgwyr ddatblygu eu cofnodion iechyd eu hunain, ac yna rhoi'r cofnodion hyn ar waith am gyfnod penodol o amser ar gyfer anifeiliaid penodol. Yna dylai'r dysgwyr greu cyflwyniad i egluro sut maent wedi rhoi triniaeth ataliol i'r anifeiliaid, a'r rhesymau dros ei defnyddio'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth lles anifeiliaid. Nid yw T3 yn cynnwys cymaint o fanylder â hyn.

Ar gyfer Rh3, dylai'r dysgwyr werthuso'u cynlluniau gofal iechyd eu hunain ac eraill, ac ysgrifennu traethawd yn rhoi manylion y driniaeth ataliol a'r gwaith o fonitro'r anifeiliaid oedd yn angenrheidiol wedi hynny. Dylent gynnwys crynodeb o'r triniaethau a ddefnyddiwyd ac awgrymu gwelliannau posib.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1 | Iechyd Da ac Afiechyd | Rydych yn gweithio fel cynorthwy-ydd mewn meddygfa filfeddygol. Mae angen i chi drin anifeiliaid a gwirio’u hiechyd, gan ddarparu dadansoddiad a gwerthusiad. | Asesiad ymarferol.<br>Traethawd. |
| Ll4, Ll5, T2, Rh2 | Clefydau a'r System Imiwnedd | Rhowch fanylion clefydau ac anhwylderau cyffredin, y system imiwnedd a gwerthuso effeithiau clefydau hysbysadwy a milheintiol ar gasgliad o anifeiliaid. | Aseiniad |
| Ll6, Ll7, Ll8, Ll9, T3, Rh3 | Cynnal Iechyd a Lles | Cyflawni triniaethau arferol, llunio taflen a chyflwyno'r wybodaeth i gymheiriaid | Cyflwyniad. Aseiniad.<br>Asesiad ymarferol. |
| Ll10, Ll11, Ll12, T4 | Cyflwyno Triniaethau Sylfaenol | Rhaid cyflawni triniaethau sylfaenol arferol ac anarferol a'u monitro a'u cofnodi ar gyfer o leiaf ddau fath gwahanol o anifail. | Asesiad ymarferol.<br>Aseiniad. |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflwyniad i Fioleg Anifeiliaid a Phlanhigion |
| Cyfrannu at Nyrsio Anifeiliaid |
| Cyflwyniad i Ofalu am Fywyd Dŵr Addurnol |
| Cynnal Iechyd a Lles Anifeiliaid |
| Cynnal Llety Anifeiliaid |
| Deall Egwyddorion ac Arferion Sefydliadau Anifeiliaid |
| **Lefel 3** |
| Elfen AC10.1 Rhoi cynlluniau ar waith i gynnal iechyd a lles anifeiliaid<br>Elfen AC10.2 Monitro a gwerthuso cynnal iechyd a lles anifeiliaid |
| Deall Egwyddorion Bioleg Anifeiliaid |
| Deall Egwyddorion Nyrsio Anifeiliaid |
| Deall Egwyddorion Hwsmonaeth a Rheoli Bywyd Dŵr |
| Deall Egwyddorion a Chyflawni Iechyd a Hwsmonaeth Anifeiliaid Ecsotig |
| Deall Rheoli ac Adfer Bywyd gwyllt ac Ymgymryd ag ef |
| Deall a Chyflawni Hwsmonaeth Da Byw Fferm |

## Adnoddau hanfodol

Dylai fod gan y dysgwyr fynediad i amrediad o rywogaethau 'y gellir eu trin' ac y gellir eu defnyddio ar gyfer sesiynau ymarferol. Dylai'r dysgwyr fod yn ymwybodol o'r defnydd o anifeiliaid, a sicrhau nad ydynt yn cael eu gorddefnyddio ac nad yw eu lles yn cael ei gyfaddawdu unrhyw bryd. Dylid defnyddio arferion gwaith diogel bob tro.

Dylai'r dysgwyr gael mynediad i ganolfan adnoddau neu lyfrgell sydd â chyflenwad da o’r deunydd diweddaraf, a defnyddio cyfleusterau TGCh yn y ganolfan.

Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Anogir canolfannau i ddatblygu cysylltiadau gyda chasgliadau anifeiliaid i roi mewnwelediad i'r dysgwyr i ddulliau amgen o ddarparu gofal iechyd ar gyfer anifeiliaid. Gallai'r rhain fod yn filfeddygon, yn sŵs a pharciau bywyd gwyllt, yn gwmnïau iechyd/ lles anifeiliaid, yn ffermydd neu'n gyfleusterau lletya/achub. Gallai hyn fod naill ai trwy ymweliadau â’r sefydliadau neu ymweliadau gan ddarlithwyr gwadd o sefydliadau addas.

 © Pearson Education Limited 2019

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Alderton D – *Exotic Pets: Practical Pet care Handbook* (Lorenz Books, 2004) ISBN 9780754814061

Alderton D et al – *The Complete Book of Pets and Petcare* (Lorenz Books, 2006) ISBN 9780754816614

Bower J a Youngs D – *The Dog Owner's Veterinary Handbook* (Trafalgar Square, 2009) ISBN 9781852238261

Case L P – *The Dog: its Behavior, Nutrition, and Health, Ail Argraffiad* (WileyBlackwell, 2005) ISBN 9780813812540

Hayes M H a Knightbridge R (gol) – *Veterinary Notes for Horse Owners* (Ebury Press, 2002) ISBN 9780091879389

Hoffman M, – *The Doctors Book of Home Remedies for Dogs and Cats* (Bantam, 1998) ISBN 978-0553577815

Kotter E – *Gerbils, A Complete Pet Owner's Manual* (Barron's Educational Series, 2010) ISBN 9780764144295

Krottlinger J – *Keeping Reptiles and Amphibians* (TFH Publications, 1993) ISBN 9780866225168

Lane D, Cooper B a Turner L (gol) – *BSAVA Textbook of Veterinary Nursing* (British Small Animal Veterinary Association, 2007) ISBN 9780905214894

Meredith A a Johnson-Delaney (gol) – *BSAVA Manual of Exotic Pets* (British Small Animal Veterinary Association, 2002) ISBN 9780905214474

Simpson G (gol) – *Practical Veterinary Nursing – Trydydd Argraffiad* (British Small Animal Veterinary Association, 1994) ISBN  9780905214276

Turner T – *Veterinary Notes for Dog Owners* (Hutchinson, 1994) ISBN 9780091738174

Turner T a Tuner J (gol) – *Veterinary Notes for Cat Owners* (Hutchinson, 1994) ISBN 9780091751036

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.bvna.org.uk | Cymdeithas Nyrsio Milfeddygol Prydain |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.pdsa.co.uk | PDSA |
| www.rspca.org.uk | Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | disgrifio iechyd da ac afiechyd, archwilio clefydau ac imiwnedd, edrych ar ddulliau o ddarparu triniaethau, monitro anifeiliaid a chwblhau cofnodion, egluro deddfwriaeth |
| **Meddylwyr creadigol** | archwilio ffactorau megis pathogenau, gofal ataliol, rhoi cynlluniau ar waith, monitro anifeiliaid a chyflawni tasgau arferol |
| **Dysgwyr myfyriol** | cwblhau cofnodion, trin anifeiliaid, egluro clefydau, datblygu cynlluniau, monitro anifeiliaid a chyflawni tasgau arferol |
| **Gweithwyr tîm** | trin anifeiliaid, gwirio iechyd anifeiliaid, cwblhau cynlluniau, cyflawni triniaethau a chwblhau cofnodion |
| **Hunan-reolwyr** | disgrifio iechyd a gwirio iechyd, trin anifeiliaid, ymchwilio ac egluro, datblygu cynlluniau |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | datblygu cynlluniau, trin anifeiliaid, rhoi cynlluniau ar waith, monitro anifeiliaid |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | cynllunio ac yn cyflawni gweithgareddau ymchwil perthnasol i'r uned a iechyd anifeiliaid<br>dadansoddi gwybodaeth am iechyd anifeiliaid ac arwyddion o afiechyd |
| **Meddylwyr creadigol** | holi cwestiynau i ehangu eu meddyliau yn ystod darlithoedd a sesiynau ymarferol<br>rhoi cynnig ar ddewisiadau amgen neu ddatrysiadau newydd i ofal iechyd anifeiliaid<br>addasu syniadau wrth i amgylchiadau newid ee newidiadau i ddeddfwriaeth lles anifeiliaid. |
| **Dysgwyr myfyriol** | nodi cyfleoedd ar gyfer newidiadau i ofal iechyd anifeiliaid a'u cyflawniadau eu hunain<br>gosod nodau ar eu cyfer eu hunain ee trechu ofn trin anifeiliaid<br>adolygu cynnydd gyda thasgau ymarferol a gwaith cwrs |
| **Gweithwyr tîm** | gweithio gydag eraill i gyflawni gwiriadau iechyd, arferion ymarfer a hwsmona anifeiliaid<br>dod i gytundeb clir ynghylch pwy sy'n cyflawni pa dasgau<br>cydweithio mewn argyfwng |

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Hunan-reolwyr** | dangos mentergarwch ac ymroddiad gydag anifeiliaid a'u gofal iechyd<br>delio gyda phwysau mewn sefyllfa cymorth cyntaf frys<br>rheoli emosiynau wrth drafod lles a gofal iechyd anifeiliaid |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | trafod materion sy'n achosi pryder wrth wirio iechyd anifail neu ganfod anifail mewn sefyllfa les sydd heb fod yn ddelfrydol<br>nodi gwelliannau i drefniadau lles cyfredol anifail<br>dylanwadu ar arferion a safonau gofal iechyd anifeiliaid eraill |

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| **Sgil** | **Pan fydd y dysgwyr yn…** |
|---|---|
| **TGCh – Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | defnyddio cyfleusterau mewn canolfannau, cwblhau gwaith cwrs, defnyddio byrddau clyfar a chyfrifiaduron yn y dosbarth, defnyddio deunyddiau rhyngweithiol ar gyfer dysgu ac addysgu, ymchwilio i bynciau ar y rhyngrwyd |
| Defnyddio TGCh i gynllunio gwaith yn effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd y system TGCh a ddefnyddiwyd | |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | |
| Dilyn arferion diogelwch a diogeledd a deall yr angen amdanynt | |
| Datrys problemau | |
| **Mathemateg** | |
| Deall problemau arferol ac anarferol mewn amrediad eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | awgrymu pwysau anifeiliaid a meddyginiaeth i fodloni eu hanghenion, cyfrifo dogn atchwanegiadau yn ôl maint anifail, a chasglu a dadansoddi pwysau anifeiliaid ar gyfer gwerthusiadau gofal iechyd |
| Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | dadansoddi data ymchwil y farchnad<br>paratoi cyllidebau |
| Dethol ystod o sgiliau a'u cymhwyso i ganfod datrysiadau | |
| Defnyddio gweithdrefnau gwirio priodol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar bob cam | paratoi cyllidebau |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Llunio casgliadau a darparu cyfiawnhad mathemategol | |

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando - gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | cyflwyno i gymheiriaid, gwrando ar gyflwyniadau eraill |
| Darllen - cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | ymchwilio ar gyfer eu haseiniad |
| Ysgrifennu - ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | ysgrifennu aseiniadau. |